

2018/19

Datganiad Cydydffurfio



DATGANIAD CYDYMFFURFIAETH

Mae Llywodraeth Cymru'n rheoleiddio Cymdeithasau Tai yng Nghymru i sicrhau eu bod yn darparu cartrefi o ansawdd uchel a gwasanaethau o ansawdd da ac sy'n gwella, i denantiaid ac i eraill sy'n defnyddio eu gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru, yn ei dogfen 'Y Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru' yn cyflwyno cyfres o Safonau Perfformiad sy'n tynnu sylw ar y prif risgiau a'r materion strategol sy'n wynebu Cymdeithasau Tai. Mae Gweinidogion Cymru'n disgwyl y bydd Cymdeithasau Tai yn cyrraedd y Safonau Perfformiad, ac mae hwn, ein Datganiad Cydymffurfiaeth Blynyddol, yn ddatganiad gan y Bwrdd i gadarnhau ei fod yn fodlon ac wedi'i sicrhau ein bod yn cyrraedd yr holl Safonau Perfformiad.

Mae'r Datganiad Cydymffurfiaeth yn seiliedig ar ein Cynllun Blynyddol (sy'n cael ei adolygu ac sy'n destun craffu gan Gorff Democrataidd) a chorff o dystiolaeth ategol.

Datganiad Cydymffurfiaeth Blynyddol gan Gartrefi Cymoedd Merthyr

Enw a Rhif Cofrestru'r LCC: Merthyr Valleys Homes Ltd - L150

Swyddfa Gofrestredig: Ty Brychan, 22 Lansbury Road, Gellideg, Merthyr Tydfil CF48 1HA

Mae hwn yn ddatganiad gan Gartrefi Cymoedd Merthyr bod ein sefydliad cydfuddiannol ar 12th Medi 2019, wedi cyrraedd y Safonau Perfformiad a nodir yn y Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Cymdeithasol sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru

Llofnodwyd: 

Cadeirydd: Nicola Evans

Dyddiad: 12th Wedi 2019

Safon Perfformiad

	Safon Perfformiad	A ydym yn cydymfurfio	Eglurhad	Camau i Wella
1	Bwrdd a rheolwyr gweithredol effeithiol gyda gweledigaeth glir ac uchelgeisiol i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig	Ydym		
1.1	Mae'n pennu gweledigaeth glir a gwerthoedd pendant i'r sefydliad sy'n cyflawni ac yn datblygu diben craidd y busnes		<p>Cafodd ein Strategaeth Gorfforaethol 'Yfory' ei llunio gan ein Corff Democrataidd yn 2016. Ein Cynllun Blynyddol yw'r ddogfen a ddefnyddir gan y Corff Democrataidd i fonitro perfformiad yn erbyn y cynnydd a wnaed yn erbyn ein hamcanion, ac rydym yn cynnal diwrnod d cwrdd i ffwrdd bob blwyddyn i adolygu hyn. Cafodd ei adolygu ddiwethaf fis Gorffennaf 2019.</p> <p>Mae ein gwerthoedd i'w gweld yn ein prosesau recriwtio, adolygiadau perfformiad a'n prosesau penderfynu. Roedd ein Bwrdd, y Corff Democrataidd a'r aelodau'n gysylltiedig â recriwtio ein Prif Weithredwr newydd eleni, ac rydym wedi ymrwymo i alluogi cynrychiolwyr hyfforddedig o'r Corff Democrataidd i fod yn aelodau hefyd o banelau cyfweld ar gyfer Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth. Mae gennym fwrdd cryf ac amrywiol, ac mae 75% o aelodau'r Bwrdd wedi'u penodi gan ein Corff Democrataidd.</p> <p>Mae perfformiad staff yn cael ei arfarnu'n unol â'n gwerthoedd mewn adolygiadau prawf ac mewn arfarniadau blynyddol, ac mae adolygiadau'r Bwrdd a'r Corff Democrataidd yn cael eu cynnal yn yr un modd.</p> <p>Mae adroddiadau i'r Bwrdd a'r Corff Democrataidd yn cysylltu'n ôl â'n gwerthoedd a'n hamcanion ac wrth gael cymeradwyaeth rhaid i</p>	Ar hyn o bryd rydym yn datblygu ein Strategaeth Gorfforaethol nesaf 'Yfory 2' gyda'r Bwrdd, y Corff Democrataidd a'r aelodau

			staff ddangos sut y caiff y rhain eu cyflawni.	
1.2	Mae trefniadau llywodraethu yn sefydlu ac yn cynnal rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir i'r bwrdd, y cadeirydd a'r prif weithredwr ac yn sicrhau bod trefniadau uniondeb priodol ar waith		<p>Yn ogystal â'n Rheolau, rydym wedi llunio set o Reolau Sefydlog sy'n nodi cyfrifoldebau ac atebolrwydd y Bwrdd, y Corff Democrataidd a Thîm y Rheolwyr Gweithredol. Mae ein Rheolau Sefydlog Contractau yn rhoi'r fframwaith ar gyfer caffael gwaith, nwyddau, cyflenwadau a gwasanaethau. Mae gennym 'Fatricks Penderfyniadau' sy'n dangos y cyfrifoldebau dros benderfyniadau ar gyfer y Bwrdd, y Corff Democrataidd a grwpiau eraill o fewn ein strwythur llywodraethu.</p> <p>Mae swydd ddisgrifiadau (gan gynnwys manylebau'r person), cylchoedd gorchwyl a chod ymddygiad yn weithredol yn achos y Bwrdd a'r Corff Democrataidd ac mae swydd ddisgrifiadau wedi'u llunio ar gyfer rôl pob cyflogai. Yn unol â Chod Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru (CHC), rydym wedi pennu tymhorau yn y swydd ar gyfer y Bwrdd a'r Corff Democrataidd (uchafswm o 9 mlynedd).</p> <p>Mae gennym drefniadau uniondeb priodol, gyda pholisïau ar Lwgrwobrwyo a Llygredd, Atal Twyll a Gwyngalchu Arian. Mae Datganiadau o Fuddiant yn cael eu casglu'n flynyddol, maent yn cael eu datgan mewn cyfarfodydd a'u monitro gan Reolwyr Llinell. Rydym yn cadw Cofrestrau Twyll a Rhoddion a Lletygarwch ac mae'r rhain yn cael eu hadolygu ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio. Rydym yn cofnodi ac yn adrodd ar unrhyw fuddiannau sy'n cael eu caniatáu a ddyfernir yn ystod y flwyddyn yn unol â'n ffurflen Atodlen 1.</p>	<p>Mae'r Rheolau Sefydlog yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd yn dilyn ein newid i'r rheol ym mis Mawrth 2019 ac maent yn adlewyrchu newidiadau i strwythur y Tîm Rheolwyr Gweithredol.</p> <p>Rydym wedi cynllunio archwiliad mewnol o'n strwythurau a'n prosesau llywodraethu ar gyfer 2019/20.</p> <p>Rydym yn bwriadu comisiynu adolygiad annibynnol ar gyfer ein trefniant llywodraethu yn Ch2 2019/20.</p>
1.3	Mae'n cydymffurfio â dogfennau llywodraethu gan gynnwys mabwysiadu cod llywodraethu priodol a chydymffurfio ag ef		Rydym yn cydymffurfio â'n dogfennau llywodraethu ac â Chod Llywodraethu CHC, ac rydym wedi mabwysiadu'r Cod newydd.	<p>Rydym yn edrych ar y posibilrwydd o ddatblygu cod ar gyfer cymdeithasau tai cydfuddiannol fel ni.</p> <p>Rydym wedi cynllunio i gynnal archwiliad mewnol</p>

				<p>o'n strwythurau a'n prosesau llywodraethu yn 2019/20.</p> <p>Rydym yn bwriadu comisiynu adolygiad annibynnol o'n trefniant llywodraethu yn Ch Q2 2019/20.</p>
1.4	Mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol		Rydym yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol fel yr amlinellwyd yn ein strategaethau a'n polisiau. Rydym yn cynnal Archwiliadau Mewnol ac adolygiadau mewnol rheolaidd o feysydd busnes allweddol ac yn ymwybodol o newidiadau deddfwriaethol. Rydym yn cyflogi pobl â chymwysterau addas ac yn gofyn am gyngor gan ffynonellau allanol fel sy'n briodol. Rydym yn aelodau o gyrff proffesiynol perthnasol.	
2	Mae'n cynnwys tenantiaid yn effeithiol ac yn briodol a gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n gwella	Ydym		
2.1	Mae'n dangos sut mae tenantiaid yn cael eu cynnwys yn effeithiol mewn prosesau gwneud penderfyniadau strategol a'r gwaith o gynllunio gwasanaethau mewn ffordd sy'n briodol i denantiaid a'r sefydliad		<p>Mae ein Corff Democrataidd yn llunio ein strategaeth gorfforaethol – Yfory – ac amcanion allweddol ac mae'n cydweithio â'r Bwrdd a'r Tîm Rheolwyr Gweithredol i wneud penderfyniadau strategol. Rydym yn ymgynghori'n rheolaidd â'n tenantiaid sy'n aelodau a thenantiaid mewn amrywiaeth o ffyrdd (gan gynnwys grwpiau ffocws, arolygon barn, a chyfryngau cymdeithasol) ac yn sicrhau bod ganddynt lais ac yn gallu dylanwadu ar strategaethau a pholisiau.</p> <p>Mae gennym nifer o fforymau a phanelau lle'r ydym yn ymgysylltu â thenantiaid a lle gallant ffurfio a chraffu ar wasanaethau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fforwm Diogelwch Tenantiaid • Fforwm Diogelwch Preswylwyr (Llys Santes Tudful) • Fforwm Cyfranogi Preswylwyr (Craffu) • Panel Grantiau 	

2.2	Mae'n bodloni'r holl ofynion statudol cymwys gan ddarparu ar gyfer iechyd a diogelwch y rhai sy'n byw yn y cartref	<p>Cynhaliwyd arolwg barn rhanddeiliaid (STAR) yn ystod Chwefror/Mawrth 2019 – ymatebodd 738 o denantiaid. O'i gymharu â'r arolwg STAR diwethaf yn 2017 bu cynnydd mewn bodlonrwydd ynglŷn â sut roedd tenantiaid yn teimlo bod eu llais yn cael ei glywed a bod eu barn yn cael sylw. Cynyddodd bodlonrwydd o 76% i 80%, gan ein rhoi yn y chwarterl uchaf gyda meincnod Housemark o 75%. Roedd 60% o ymatebwyr yn fodlon â'r dulliau presennol o'u cynnwys.</p> <p>Mae ein Polisi Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn cael ei ysgrifennu'n unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol ac mae'n cynnwys cyfrifoldebau allweddol. Mae'r Polisi a'r gweithdrefnau ategol sy'n cynnwys manylion am ein trefniadau Iechyd a Diogelwch sy'n rhan o'n System Rheoli Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol, wedi'i ardystio'n allanol i OHSAS18001.</p> <p>Rydym yn paratoi adroddiad chwe-misol i'r Bwrdd ar reoli Iechyd a Diogelwch ac mae'r Bwrdd hefyd yn monitro perfformiad drwy adolygu nifer o DPA. Eleni rydym wedi cynnal nifer o archwiliadau mewnol - Diogelwch Tân, Diogelwch Nwy a Legionella yn ogystal ag archwiliadau allanol o'n gweithgarwch fel canolfan hyfforddi Iechyd a diogelwch ar gyfer Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu a Highfield Awarding Body for Compliance.</p> <p>Mae'r Bwrdd wedi penodi Hyrwyddwr Iechyd a Diogelwch sy'n mynychu ac sydd â throsolwg dros gyfarfodydd ein Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a'r Fforwm Diogelwch Tenantiaid.</p> <p>Rydym wedi parhau i gyflwyno ystod o gyrsiau hyfforddi Iechyd a diogelwch achredig a mewnol drwy gydol y flwyddyn ac wedi cadw ein hachrediadau â CITB a HABC.</p> <p>Ein Fforwm Diogelwch Tenantiaid yw ein swyddogaeth graffu Iechyd</p>	Rydym yn y broses ar hyn o bryd o uwchraddio'r system hon i gydymffurfio â'r safon ISO45001 newydd.
-----	--	---	---

			<p>a Diogelwch tenantiaid, ac mae tenantiaid sy'n aelodau eleni wedi uwchraddio eu Dyfarniadau Lefel 2 HABC i Lefel 3 mewn cymwysterau lechyd a Diogelwch yn y Gweithle. Mae ein Fforwm Diogelwch Tân Preswylwyr yn parhau i gwrdd yn rheolaidd ac mae wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau ar y cyd gyda Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar Diogelwch Tân yn y Cartref ac, ynghyd â chynrychiolwyr o'r Fforwm Diogelwch Tenantiaid aethpwyd ar deithiau i ffatri cyflenwyr ein drws tân cyfansawdd newydd a buont yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi ar wasanaethu drysau o'r fath sydd wedi'u cynnal ar gyfer ein timau Cartrefi a Gwasanaethau Eiddo.</p>	
3	<p>Asesiad cynhwysfawr o effeithiau busnes y risgiau cyfredol a risgiau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys cyfleoedd busnes a datblygu newydd, gyda threfniadau rheoli risg cadarn</p>	Ydym		
3.1	<p>Mae'n diogelu buddiannau trethdalwyr ac enw da'r sector ac yn gwarchod asedau tai cymdeithasol</p>		<p>Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol am reoli risgiau. Cafodd ein Strategaeth Rheoli Risgiau ei diweddarau fis Mawrth 2019 i gynnwys mwy o ganllawiau ar sicrwydd a'n Fframwaith Sicrwydd. Mae gennym fframwaith Rheoli Risgiau effeithiol ar waith ac mae'n rhoi i'r Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio y sicrwydd angenrheidiol bod risgiau arwyddocaol yn hysbys a'u bod yn cael eu rheoli'n briodol. Mae adroddiad chwe-misol yn mynd i'r Bwrdd sy'n rhoi trosolwg o'r risgiau strategol sy'n cael eu rheoli gan y sefydliad.</p> <p>Mae ein Cofrestr Risgiau Strategol (risgiau sector a lleol) yn cael ei hadolygu'n chwarterol (o leiaf) gan y Pwyllgor Archwilio, ac fe'i defnyddir i sicrhau bod y sefydliad yn canolbwyntio ei reolaeth</p>	

3.2	Mae'r asesiad o'r gallu i fanteisio ar gyfleoedd busnes a chyfleoedd datblygu newydd yn gadarn		<p>risgiau ar y risgiau hynny a all ein hatal rhag cyflawni ein hamcanion strategol. Mae gan y Pwyllgor Archwilio seddau ar gyfer Cynrychiolwyr y Corff Democrataidd sy'n adrodd yn ôl i'r Corff Democrataidd yn dilyn cyfarfodydd. Mae ein risgiau'n cyd-fynd â'n gweledigaeth yn Yfory neu â'n dyletswydd gyfreithiol i gydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru neu'r gyfraith. Mae'r Gofrestru Risg Strategaeth yn cael ei lanlwytho i VBR bob chwarter fel bod modd i holl Aelodau'r Bwrdd weld y ddogfen.</p> <p>Mae ein Cynllun Busnes yn cael ei gynhyrchu'n flynyddol. Mae cynllun 2019/20 wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd, a chytunwyd arno, mewn egwyddor, â'n Cyllidwyr. Mae'r Cynllun Busnes wedi cael ei roi ar brawf mewn perthynas â risgiau sylweddol.</p> <p>Rydym yn adrodd i'r Bwrdd ar ei gyfrifon yn chwarterol, ac yn flynyddol i'n holl randdeiliaid yn ein Datganiadau Ariannol.</p> <p>Rydym yn cynnal arfarniad o gynlluniau a phrosiectau newydd, ac eleni rydym wedi sefydlu Grŵp Datblygu. Prif nod y grŵp yw dylanwadu ar a chynorthwyo MVH yn y gwaith o ddarparu cartrefi newydd, i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd datblygu a sicrhau bod gweithgarwch datblygu'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, ymarfer da a pholisïau a gweithdrefnau MVH. Mae'r grŵp yn adrodd i'r Tîm Rheolwyr Gweithredol, ac mae ganddo gynrychiolaeth o'r Corff Democrataidd.</p>	
3.3	Mae'n cynnal profion straen manwl a chadarn o gynlluniau ariannol yn erbyn amrywiaeth o senarios, gan nodi strategaethau lliniaru priodol		<p>Mae cynllun busnes 2019/20 wedi cael ei roi ar brawf yn erbyn nifer o senarios, ac mae ein model profi straen yn ystyried nifer o risgiau sylweddol (gan gynnwys risgiau'r sector fel pennu rhenti a datgarboneiddio). Adroddwyd ar y Cynllun Busnes a chytunodd y Bwrdd arno ym mis Mehefin 2019, a chytunwyd arno, mewn egwyddor, â'n Cyllidwyr.</p>	Rydym yn bwriadu adolygu ein Strategaeth Rheoli Asedau yn Ch3 2019/20.
3.4	Cyn derbyn unrhyw rwymedigaethau newydd, mae'n		<p>Mae ein Grŵp Datblygu'n dylanwadu ar ac yn cynorthwyo MVH yn y gwaith o ddarparu cartrefi newydd, i sicrhau ein bod yn manteisio i'r</p>	

	sicrhau bod y rhwymedigaethau yn cael eu deall yn llawn ac yn dangos ei bod wedi ystyried sut y caiff yr effaith debygol ar fusnes a chydymffurfiaeth reoleiddiol nawr ac yn y dyfodol ei rheoli		eithaf ar gyfleoedd datblygu a sicrhau bod gweithgarwch datblygu'n cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, ymarfer da a pholisïau a gweithdrefnau MVH. Mae model arfarnu'n cael ei ddefnyddio i asesu hyfywedd cynlluniau newydd.	
4	Darparu tystiolaeth glir o'r hunanwerthusiad a'r datganiad cydymffurfiaeth	Ydym		
4.1	Cydymffurfio â Chylchlythyr 02/15 - egwyddorion craidd hunanwerthuso i'w defnyddio gan Gymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru, neu unrhyw ganllawiau dilynol sy'n disodli'r Cylchlythyr hwn		<p>Cafodd cyfres o ddogfennau sy'n cofnodi ein perfformiad blynyddol am 2017/18 ei chymeradwyo gan y Bwrdd a'r Corff Democrataidd ym mis Gorffennaf 2018, ac fe'i cyflwynwyd yng Nghyfarfod Blynyddol yr Aelodau ym Medi 2018. Roedd yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad Blynyddol • Datganiadau Ariannol • Datganiad Gwerth am Arian • Datganiad Cydymffurfiaeth • Adroddiad i Aelodau <p>Cyn eu cyflwyno, cafodd pob adroddiad ei adolygu, craffwyd arno ac fe'u cymeradwywyd gan y Corff Democrataidd a'r Bwrdd. Y gyfres hon o ddogfennau yw ein hunan werthusiad ac maent i gyd ar gael ar ein gwefan.</p> <p>Rydym yn y broses o ddatblygu cyfres o ddogfennau ar gyfer 2018/19, a chaiff y rhain eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2019 ac i aelodau a rhanddeiliaid yng Nghyfarfod Blynyddol yr Aelodau ym mis Medi 2019.</p> <p>Cafwyd Dyfarniad Rheoleiddiol ym mis Rhagfyr 2018 ac mae wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan – Safon / Safon a gyflawnwyd.</p>	
5	Hanes o gyflawni canlyniadau cadarnhaol, gan ymateb yn briodol i heriau	Ydym		

	newydd a phroblemau sy'n ymwneud â pherfformiad			
5.1	Mae'n dangos sut y mae'r bwrdd yn sicrhau ei hun ynglŷn â pherfformiad ac yn ysgogi gwelliant parhaus		<p>Mae ein mesurau o lwyddiant wedi'u cynnwys yn ein Cynllun Blynyddol – mae hyn yn cysylltu ein hamcanion corfforaethol ag amcanion gweithredol a mesurau perfformiad. Mae adolygiad llawn o'r cynllun yn cael ei gynnal yn flynyddol gan y Corff Democrataidd – cafodd ei adolygu ddiwethaf ym Mehefin 2019.</p> <p>Mae'r Bwrdd a'r Corff Democrataidd yn adolygu ac yn monitro perfformiad, mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau thematig, sy'n ystyried gwelliannau i'r gwasanaeth, ac mae'r Bwrdd hefyd yn gweld adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol blynyddol. Mae ein Grŵp Craffu (RPF) yn cael adroddiadau eithriadau ynglŷn â DPA ac mae Penaethiaid Gwasanaeth yn bresennol yn eu cyfarfodydd. Mae gan RPF system sy'n amlgyu unrhyw broblemau â pherfformiad i'r Corff Democrataidd a'r Bwrdd.</p> <p>Eleni, fel y nodwyd yng nghanlyniadau ein Harolwg STAR, mae bodlonrwydd tenantiaid â'n gwasanaethau wedi cynyddu 3%, sy'n arwyddocaol yn ystadegol, ers 2017, gydag 88% o denantiaid yn awr yn dweud eu bod yn fodlon, gan gynnwys 49% a oedd yn 'fodlon iawn'. Dyma'r un cynnydd mwyaf mewn bodlonrwydd ers y trosglwyddo yn 2009. Gwelwyd patrwm tebyg mewn manau eraill yn y canfyddiadau gyda bodlonrwydd yn cynyddu yn achos mwyafrif y mesurau craidd ac mewn rhai achosion gwelwyd cynnydd sylweddol.</p> <p>Mae Archwiliadau Mewnol yn cael eu hadolygu gan Bwyllgor Archwilio ac maent yn monitro argymhellion yn chwarterol. Gellir arddangos sicrwydd drwy achrediadau allanol. Eleni dyfarnwyd dyfarniad QUE (Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) Tai Pawb inni.</p>	Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad o'n system rheoli perfformiad yn Ch2 2019/20, a fydd yn cynnwys adolygu mesurau, amllder ac arddull adroddiadau.
5.2	Mae'n dangos sut mae prosesau gosod eiddo yn gwneud y		Rydym yn cyfranogi ym Mholisi Cyffredin ar Ddyrannu Tai MTCBC, un o'r pedwar Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sydd â stoc dai yn	

	defnydd gorau posibl o'r tai sydd ar gael, yn unol â diben craidd y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig		<p>y fwrdeistref. Mae hwn yn bolisi 'seiliedig ar ddewis' lle mae ymgeiswyr yn cael eu 'bandio' yn ôl eu hangen am dai ac mae'n seiliedig ar wybodaeth a ddatgelir gan yr ymgeisydd. Mae hyn yn golygu bod pob ymgeisydd sy'n gwneud cais am gartref yn cael un llwybr mynediad ac yn cael eu hasesu drwy ddefnyddio un polisi.</p> <p>Rydym yn darparu 5 uned i Calon Leasing, sydd (mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol) yn darparu llety i bobl ddigartref, gyda dau ohonynt wedi'u haddasu ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau'n feddygol o ysbyty.</p> <p>Rydym yn talu sylw i anghenion tai yn lleol. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi treialu datrysiad cost isel ar gyfer pobl sengl gyda'n prosiect cartrefi modiwlaid. Rydym yn diwallu anghenion pobl hŷn ac rydym yn y broses o adeiladu tri byngalo a fydd yn gartref i bobl >50 oed. Rydym hefyd yn manteisio ar y cyfle, pan fydd hynny'n bosibl, i ailddatblygu eiddo – yn Nhreharris rydym wedi datblygu eiddo presennol i greu eiddo 4 ystafell wely wedi'i addasu'n llawn a dau fflat sengl yn unol â'r angen gwirioneddol. Rydym wedi dynodi unedau llety dros dro ar delerau gwasgaredig.</p>	
6	Sicrhau gwerth am arian ym mhob agwedd ar y busnes	Ydym		
6.1	Mae'n dangos dull strategol o sicrhau gwerth am arian a'i bod yn gwneud hynny ym mhob rhan o'r busnes mewn costau gweithredol i denantiaid a defnyddwyr gwasanaeth		<p>Mae ein Corff Democrataidd yn arwain ar Werth am Arian, ac mae wedi datblygu ein Strategaeth Gwerth am Arian (Yfory Cryf) yn 2018. Mae'r Corff Democrataidd yn monitro Gwerth am Arian ar ran ein haelodau'n flynyddol ac mae wedi derbyn Datganiad Gwerth am Arian 2018/19, gan ddod i'r casgliad bod MVG wedi rhoi Gwerth am Arian yn ystod 2018/19. Disgwylir y bydd y Datganiad Gwerth am Arian yn cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2019.</p> <p>Yn 2018 datblygodd y Bwrdd, y Corff Democrataidd a'r Aelodau y 'Cerdyn Sgorio Cytbwys', dogfen sy'n rhoi cipolwg ar ein perfformiad mewn nifer o feysydd allweddol, ac yn eu cymharu â blynyddoedd blaenorol. Ym mis Mehefin hefyd datblygwyd saith Rheol Euraidd newydd ar gyfer Gwerth am Arian. Mae ein Rheolau Euraidd yn ein</p>	Rydym wedi cychwyn adolygiad o Werth Cymdeithasol, a bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau yn 2019/20.

			<p>galluogi i werthuso ein perfformiad blynyddol o ran darbodusrwydd, effeithlonrwydd, effeithiolrwydd chydaddoldeb.</p> <p>Rydym wedi cymharu dangosyddion Gwerth am Arian y sector tai (o gyfrifon byd-eang 2017/18) wrth eu'n perfformiad ar gyfer 2017/18 a 2018/19, ac rydym yn perfformio'n dda ar gyfer mwyafrif y dangosyddion.</p>	
7	Cydymffurfio â gofynion a chanllawiau rheoleiddiol a statudol	Ydym		
7.1	Mae'n cyfathrebu'n amserol â'r rheoleiddiwr ynghylch materion perthnasol sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio		<p>Rydym yn gweithio mewn ffordd gydgynhyrchiol ac rydym wedi meithrin perthynas agored a thryloyw â'n Rheolwr Rheoleiddio. Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd â'n Rheolwr Rheoleiddio ac rydym wedi cyflwyno ein Cynllun Sicrwydd Rheoleiddiol. Mae'r cynllun hwn yn cael ei adolygu bob chwarter gan ein Tîm Rheolwyr Gweithredol.</p> <p>Rydym wedi tynnu sylw at unrhyw broblemau cydymffurfio (er enghraifft, diffyg cydymffurfiaeth Drysau Tân) a newidiadau mewn strwythur i'n Rheolwr Cydymffurfio mewn modd amserol.</p> <p>Rydym yn gweithredu o fewn y Fframwaith Rheoleiddiol ac mae ffurflenni cydymffurfiaeth yn cael eu cyflwyno ar amser.</p>	
7.2	Mae'n cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddiol			
8	Cynllun ariannol sy'n cyflawni ac yn ategu'r cynllun busnes ac yn sicrhau bod perfformiad ariannol yn cael ei fonitro'n effeithiol	Ydym		
8.1	Mae'n sicrhau bod y sefydliad yn gadarn yn ariannol		<p>Mae ein Cynllun Busnes 30 mlynedd yn cael ei adolygu'n flynyddol, mae wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd ac mae ein Cyllidwyr wedi cytuno â'i gynnwys. Rydym yn rhoi prawf ar y cynllun yn rheolaidd i</p>	

<p>8.2</p>	<p>Mae systemau a rheolaethau effeithiol ar waith i fonitro'r gwaith o gyflawni cynlluniau Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a chyflwyno adroddiadau cywir arno</p>	<p>sicrhau ei fod yn gadarn yn ariannol.</p> <p>Mae ein Polisi Rheoli'r Trysorlys yn ffurfioli fframwaith i alluogi Cartrefi Cymoedd Merthyr i ganfod, ac i fynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â'r trysorlys. Mae hyn yn ei dro'n galluogi penderfyniadau strategol i adlewyrchu orau ein persbectif ar risgiau. Mae ein Strategaeth a'n Polisi Rheoli'r Trysorlys yn cael eu hadolygu'n flynyddol - fe'u adolygwyd a'u cymeradwywyd ddiwethaf gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2019 - ac fe gawsom gyngor annibynnol ar ein sefyllfa bresennol o ran rheoli'r trysorlys.</p> <p>Rydym yn cyflwyno ein Cyfrifon Rheoli i'r Pwyllgor Archwilio a'r Bwrdd yn chwarterol i gadarnhau ein sefyllfa ariannol ac rydym yn rhannu'r rhain â Llywodraeth Cymru a'n Cyllidwyr. Mae ein Datganiadau Ariannol yn cael eu harchwilio'n annibynnol, cyn cael eu cyflwyno i'n haelodau a'n rhanddeiliaid yng Nghyfarfod Blynyddol yr Aelodau, maent hefyd yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r FCA ac maent ar gael ar ein gwefan.</p> <p>Mae gennym broses gynhwysol ar gyfer pennu'r gyllideb (Star Chamber) yn flynyddol lle mae'r Corff Democrataidd a'r Bwrdd yn dod at ei gilydd i adolygu ceisiadau i'r gyllideb. Cafodd cyllideb 2019/20 ei phennu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2019.</p> <p>Mae'r Corff Democrataidd yn ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o'n perfformiad yn erbyn amcanion ein Strategaeth Gorfforaethol (Yfory) ar ffurf adolygiad o'n Cynllun Blynyddol unwaith y flwyddyn.</p> <p>Mae'r Bwrdd yn monitro ein perfformiad yn chwarterol, yn adolygu ein Cyfrifon Rheoli'n chwarterol ac maent yn gweld y DPA misol.</p>	
<p>8.3</p>	<p>Mae'n monitro pob cyfamod, yn adrodd arno ac yn cydymffurfio ag ef</p>	<p>Mae'r Corff Democrataidd yn cymeradwyo ein rhaglen Archwilio Mewnol bob blwyddyn, ac mae'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu canfyddiadau'r archwiliad mewnol ac yn olrhain cynnydd a wnaed yn</p>	

			<p>erbyn argymhellion.</p> <p>Mae'r Corff Democraataidd yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'n perfformiad yn erbyn amcanion ein Strategaeth Gorfforaethol (Yfory) ar ffurf adolygiad o'n Cynllun Blynyddol unwaith y flwyddyn.</p> <p>Mae'r Bwrdd yn monitro ein perfformiad yn chwarterol, yn adolygu ein Cyfrifon Rheoli yn chwarterol ac maent yn gweld y DPA misol.</p> <p>Mae'r Corff Democraataidd yn cymeradwyo ein rhaglen Archwilio Mewnol bob blwyddyn, ac mae'r Pwyllgor Archwilio'n adolygu canfyddiadau archwilio mewnol ac yn olrhain cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion.</p> <p>Mae'r Bwrdd yn cael adroddiad blynyddol gan yr Archwilydd allanol sy'n rhoi sicrwydd ar ein cydymffurfiaeth â chyfamodau.</p>	
9	Rheoli gweithrediadau trysorlys yn effeithiol gan sicrhau bod digon o hylifedd bob amser	Yes		
9.1	Mae'n sicrhau bod digon o arian ar gael i gyflawni'r cynllun busnes		<p>Rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â'n cyllidwyr – cynhaliwyd y cyfarfod adolygu blynyddol ym mis Mai 2019.</p> <p>Ein Polisi Rheoli'r Trysorlys yw'r fframwaith cyffredinol ar sut y bydd risgiau'n cael eu rheoli ac mae'n dangos llywodraethiant dros arferion rheoli'r trysorlys. Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn dangos sut mae polisiau'n cael eu gweithredu. Mae cyfrifoldeb am reoli'r trysorlys yng ngofal y Bwrdd, a chymeradwyodd y Bwrdd y polisi a'r strategaeth ar gyfer 2019/20 ym Mehefin 2019.</p> <p>Mae cynllun busnes 2019/20 wedi cael ei roi ar brawf yn erbyn nifer o senarios, Er bod rhai senarios ag effaith llawer gwaeth nag eraill, rydym wedi sicrhau'r Bwrdd y byddwn yn rheoli pob risg mewn modd amserol ac yn defnyddio dull cydfuddiannol i gyflawni'r arbedion angenrheidiol.</p>	


9.2	Mae'n sicrhau bod rhagamcanion ariannol yn seiliedig ar dybiaethau priodol a rhesymol		<p>Rydym wedi defnyddio dadansoddiad sensitif a profion straen i ddeall ein hamlygiad i newidiadau un yr holl ragdybiaethau economaidd allweddol ac mae ein modelu profi straen mewn perthynas â risgiau perthnasol. Mae Link Assets Services Ltd hefyd wedi dod i'r casgliad hwna:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mewn yr absenoldeb o unrhyw ganllawiau eraill, mae CPI + 1% yn dybiaeth resymol • Mae'r gwerth presennol gost llog yn yr cynllun busnes yn £12.8 miliwn (gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.5%, sydd yn ein barn ni yn amcangyfrif rhesymol o'r gyfradd llog ar fenthyciad tymor hir newydd). <p>Gafodd y cynllun busnes eu adrodd a chytuno gan y bwrdd yn Mehefin 2019 ac wedi ei gytuno, mewn egwyddor, gan ein Cyllidwyr.</p> <p>Mae ein Strategaeth Lliniaru Risg Ariannol a'n Strategaeth Gwerth am Arian wedi'u llunio i alluogi penderfyniadau i gael eu gwneud y gwyddom sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau ein tenantiaid. Os byddai risg ariannol yn codi, mae gennym hanes o gyflawni arbedion ariannol sylweddol pan fydd angen.</p>	
10	Dealltwriaeth glir o rwymedigaethau a pherfformiad asedau	Ydym		
10.1	Mae'n cynnal cofnod trylwyr, cywir a chyfredol o asedau a rhwymedigaethau gan gynnwys pob rhwymedigaeth sydd â'r hawl i ddefnyddio asedau tai cymdeithasol		<p>Mae gennym Gofrestr Asedau ac Atebolrwydd 'fyw', ac mae'r Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am ei hadolygu.</p> <p>Mae gennym gofrestr Asedau ac Atebolrwydd 'fyw'.</p> <p>Mae ein Pwyllgor Archwilio yn monitro Archwiliadau Mewnol, gyda</p>	Bydd ein Strategaeth Rheoli Asedau'n cael ei hadolygu yn Ch3 2019/20, a bydd ein Corff
10.2	Mae data ar berfformiad ariannol a chymdeithasol asedau yn gywir			

10.3	<p>ac fe'u defnyddir i lywio penderfyniadau buddsoddi</p> <p>Mae'n sicrhau bod data ar gyflwr ei hasedau yn gywir a gall ddangos ei bod wedi ystyried costau gwaith cynnal a chadw, atgyweirio ac adnewyddu yn y byrdymor a'r hirdymor</p>	<p>threfniadau cadarn i fonitro'r holl argymhellion.</p> <p>Mae ein stoc yn cael ei phrisio'n annibynnol bob blwyddyn, ac mae hyn yn cael ei gynnwys ac fe'i defnyddir i oleuo ein Cynllun Busnes ac mae wedi'i gynnwys yn ein Datganiadau Ariannol.</p> <p>Rydym wedi sefydlu Grŵp Datblygu sy'n dylanwadu ar ac yn helpu MVH i ddarparu cartrefi newydd, i sicrhau ein bod yn manteisio ar gyfleoedd datblygu a sicrhau bod ein gweithgarwch yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol, ymarfer da a'n polisiau. Cafodd yr arolwg olaf o gyflwr ein stoc ei gynnal gan Savills yn 2015.</p> <p>Rydym yn defnyddio meddalwedd Keystone Asset Management i gadw ein cofnodion o asedau, ac mae ymarferiad glanhau data ar waith, sy'n cadarnhau bod gwybodaeth a gedwir yn cyfateb yn fanwl â diffiniadau, yn dilyn sesiwn fuddiol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ym Mehefin 2019.</p> <p>Mae ein System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) newydd yn caniatáu golwg lawn ar brofiad y cwsmer sy'n gysylltiedig â gwaith trwsio.</p> <p>Mae ein Cynllun Busnes 30 mlynedd wedi ei gynhyrchu'n llwyddiannus o'n System Rheoli Asedau o ganlyniad i hyder o'r newydd yn ein data cydrannol.</p>	<p>Democrataidd yn gysylltiedig â'r gwaith hwn.</p> <p>Ein bwriad yw cynnal arolwg o 100% o'n stoc yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Bydd ein staff yn gyfrifol am y rhaglen hon, ar ôl iddynt gael hyfforddiant yn y System Mesur Iechyd a Diogelwch ar gyfer Tai (HHSRS).</p>
10.4	<p>Mae'n sicrhau bod cartrefi a ariennir yn gyhoeddus yn cyrraedd y safonau a nodir yn Safon Ansawdd Tai Cymru</p>	<p>Gallwn ymfalchïo yn ein safle WHQS, fel y dangosir yn ein cyflwyniad WHQS blynyddol i Lywodraeth Cymru (i'w gyflwyno nesaf ym mis Awst 2019). Mae ein holl eiddo a adeiladwyd yn newydd yn cydymffurfio â'r Gofynion Ansawdd Datblygu (DQR) ac roeddent yn cydymffurfio â'r WHQS.</p> <p>Mae'r holl drosglwyddiadau stoc yn cydymffurfio â'r WHQS. Mae gennym yn ein stoc hefyd gartrefi wedi'u haddasu i alluogi pobl i fyw'n annibynnol gyhyd â phosibl – mae'r rhain hefyd yn cydymffurfio</p>	

		â'r DDA.	
--	--	----------	--

Cafodd y datganiad cydymffurfiaeth hwn ei gymeradwyo ac ôl cael ei argymhell i Gyfarfod Blynyddol yr Aelodau gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr Anweithredol ar 05.09.2019.

Penderfyniad Rhif : 1432/19

Llofnodwyd: 

Nicola Evans,
Cadeirydd o Cartrefi Cymoedd Merthyr